Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Ynys Môn
# Isle of Anglesey

## Crwydro Arfordir Cymru
## Coastal Walking Wales




## Ynys Môn

Dewch i ddarganfod trysorau Ynys Môn! Gallwch weld nodweddion daearegol a thraethau prydferth heb eu hail ar hyd yr arfordir godidog yma.

### Uchafbwyntiau

- **Castell Biwmares**
  Mae llawer yn credu mai'r castell yma, un arall o gestyll niferus Edward 1, yw'r un mwyaf perffaith ym Mhrydain o safbwynt techneg codi cestyll.
- **Trwyn y Gader**
  Gyda'i golygfeydd tuag at Ynysoedd y Moelrhoniaid a thu hwnt, mae'r safle anghysbell a phrydferth yma'n bwysig o safbwynt daeareg.
- **Goleudy Ynys Lawd**
  Dysgwch am hanes pwysig yr ardal yn nhreftadaeth forwrol Cymru. Gallwch sefyll ar y clogwyni i wylio llawer o wahanol adar môr.
- **Ynys Llanddwyn a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch**
  Dyma safle hardd i chi ei archwilio. Pan fydd y llanw'n isel, cerddwch allan i'r ynys i ddysgu am Dwynwen, nawddsant cariadon Cymru.



Pont Grog y Borth
Menai Suspension Bridge



Biwmares
Beaumaris

## Isle of Anglesey

The Isle of Anglesey (Ynys Môn) is waiting for you to discover its riches. World class geology and picturesque beaches are found along this glorious coastline.

### Highlights

- **Beaumaris Castle**
  Considered by many as the most technically perfect castle in Britain, this was another in Edward I's massive building programme.
- **Carmel Head**
  With views out to the Skerries islands and beyond, this beautiful and remote spot is an important geological location.
- **South Stack Lighthouse**
  Discover the impressive history of this important part of Wales's maritime heritage. The cliffs offer great seabird sightings.
- **Llanddwyn Island & Newborough Warren National Nature Reserve**
  Explore this beautiful location and, at low tide, visit the island to discover the story behind Wales's patron saint of love, St Dwynwen.

## Y Codau Cefn Gwlad

Yn dilyn cyngor yn y Codau Cefn Gwlad i fanteisio'n llawn ar eich ymweliad:


- parchwch bobl eraill
- diogelwch yr amgylchedd naturiol
- mwynhewch yr awyr agored a chadwch yn ddiogel

Darllenwch y Codau Cefn Gwlad yn www.naturalresources.wales/countryside-codes?lang=cy


## Mwynhewch eich taith gerdded

Ewch i wefan Mentro'n Gall Cymru i ganfod awgrymiadau defnyddiol ynglŷn â sut i fwynhau antur yr arfordir yn ddiogel. www.adventuresmart.uk/cy/arfordir

Gallwch ail-lenwi eich potel ddŵr yn ystod eich taith. Lawrlwythwch ap Refill i ddod o hyd i'ch Gorsaf Ail-lenwi leol, gan gael dŵr yfed ffres yn ystod eich taith. refill.org.uk



Aberffraw



Eglwys Sant Cwyfan, Porth Cwyfan
St Cwyfan's Church, Porth Cwyfan

## Countryside Codes

Follow the advice in the Countryside Codes to get the most out of your visit:

- respect other people
- protect the natural environment
- enjoy the outdoors and stay safe

Read the Countryside Codes at www.naturalresources.wales/countryside-codes

## Enjoy your walk

Visit the Adventure Smart Wales website for some useful hints and tips on how to enjoy coastal adventure safely. www.adventuresmart.uk/coast

You can refill your water bottle along the way. Download the Refill App to find your local Refill Station and get fresh drinking water on the go. refill.org.uk

## Gair i gall

Gellir dod o hyd i fapiau manwl, teithiau undydd ac aml-ddiwrnod, teithiau cylchol, trefnwyr teithiau a chwmnïau cludo bagiau ar www.llwybrarfordircymru.gov.uk

Fe welwch amserlenni cynhwysfawr ar www.cymraeg.traveline.cymru. Rydym yn argymell eich bod yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd man cychwyn eich taith gerdded a'ch bod yn cerdded i'ch llety/car, yn lle gwneud fel arall.

Er eich diogelwch, cadwch olwg ar amserau'r llanw gan ddefnyddio'r tablau llanw perthnasol: www.metoffice.gov.uk/weather/specialist-forecasts/coast-and-sea/beach-forecast-and-tide-times

Lawrlwythwch ap Llwybr Arfordir Cymru i ddilyn eich taith gerdded a chael rhagor o wybodaeth. Chwiliwch am Lwybr Arfordir Cymru yn eich siop apiau.

## Top tips

Detailed maps, one and multi day itineraries, circular walks, tour organisers and baggage carrying companies can be found on www.walescoastpath.gov.uk

You will find comprehensive timetables at www.traveline.cymru. We recommend that you use public transport to get you to the start of your walk and walk to your accommodation/car instead of the other way round.

For your safety please keep track of the tides using the relevant tide tables: www.metoffice.gov.uk/weather/specialist-forecasts/coast-and-sea/beach-forecast-and-tide-times

Download the Wales Coast Path App to track your walk and get further information. Search for Wales Coast Path in your app store.

Sganiwch y cod QR hwn i fynd i'n gwefan
Scan this QR code to go to our website

**www.llwybrarfordircymru.gov.uk**
**www.walescoastpath.gov.uk**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llun clawr / Cover image: Goleudy Ynys Lawd / South Stack Lighthouse
Delweddau © Hawlfraint y Goron (2023) Croeso Cymru Images
© Crown copyright (2023) Visit Wales

Tachwedd / November 2023



Ynys Llanddwyn, Niwbwrch
Llanddwyn Island, Newborough

## Llwybr Arfordir Cymru

Gydag 870 o filltiroedd i'w troedio, mae gan Lwybr Arfordir Cymru rywbeth i'w gynnig i bawb. O archwilio ein treftadaeth a'n diwylliant i gael diwrnod llawn hwyl gyda'r teulu; o roi cynnig ar weithgaredd llawn adrenalin i ymlacio ar draeth bendigedig. Dewch draw i weld beth sy'n gwneud y llwybr yn gyrchfan awyr agored heb ei ail ac i weld pa mor hawdd yw hi i wneud y llwybr yn rhan o'ch bywyd bob dydd neu eich gwyliau. I gael mwy o awgrymiadau ynglŷn â'r pethau y gallwch eu gweld a'u gwneud ar y llwybr, ewch i
**www.llwybrarfordircymru.gov.uk**

## Wales Coast Path

With 870 miles to explore, the Wales Coast Path has something for everyone. From exploring our heritage and culture to having a fun day out with the family, or from trying one of Wales's coastal adrenalin activities to putting your feet upon one of our gorgeous beaches. Dip your toe in and find out why this is such a fantastic outdoor destination and discover just how easy it is to fit the Wales Coast Path in to your daily life or your holiday planning. For more suggestions on what you can see and do on the Wales Coast Path, please visit
**www.walescoastpath.gov.uk**

## Teithiau cerdded

**Biwmares i Drwyn Penmon (7.25km / 4.5 milltir)**
Beth am grwydro strydoedd Biwmares i weld yr adeiladau hardd o'r cyfnod Sioraidd cyn mentro ar hyd yr arfordir i fwynhau'r golygfeydd o fynyddoedd y Carneddau'r ochr draw i Afon Menai? Byddwch yn gweld Ynys Seiriol yn Nhrwyn Penmon, cynefin sy'n cael ei ddiogelu ar sail y boblogaeth fawr o fulfrain (ond dim un pâl er gwaethaf ei enw Saesneg!) sydd yno.

**Moelfre i Ddulas (tafarn y Pilot Boat) (7.25km / 4.5 milltir)**
Dyma lwybr sy'n cynnig golygfeydd ardderchog o'r ardal arfordirol. Mae'n golygu cerdded o bentref tlws Moelfre i draeth poblogaidd Traeth Llugwy a Thraeth yr Ora, sy'n cael llawer llai o ymwelwyr, cyn troi i mewn am y tir ar hyd aber Afon Dulas i dafarn y Pilot Boat Inn. Mae'r llwybr yn mynd heibio i'r gofeb i'r bobl a gollodd eu bywydau pan suddodd llongau'r Royal Charter yn 1859 a'r Hindlea yn 1959.

**Porth Amlwch i Gemaes (13.25km / 8.25 milltir)**
Mae'r llwybr yma'n cychwyn ym mhorthladd hanesyddol a phrydferth Amlwch. Byddwch yn cerdded ymlaen at glogwyni caregog isel a baeau hyfryd Porth Llechog a Phorthwen, heibio i eglwys anghysbell Llanbadrig ac ymlaen i bentref arfordirol Cemaes.

**Caergybi i Ynys Lawd (4.25km / 2.75 milltir un ffordd)**
Dyma daith gerdded heriol braidd sy'n cychwyn ym Mharc Gwledig y Morglawdd yng Nghaergybi. Mae'r llwybr yn mynd dros y mynydd ac ar hyd yr arfordir i safle eiconig Y nys Lawd. Mae'n bosib cerdded yn ôl i'r parc ar hyd y llwybrau amlwg ar yr ochr arall i'r mynydd.

**Pentref, aber, traeth a thwyni Aberffraw (cylch 3.75km / 2.5 milltir)**
Taith fer drwy bentref Aberffro ac ar hyd aber hyfryd Afon Ffraw a'r traeth, cyn troi'n ôl drwy'r twyni.

**Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwllllantysilio-gogogoch i Borthaethwy (5km / 3 milltir)**
Defnyddiwch y daith hyfryd yma gyda'i golygfeydd gwych draw at y tir mawr fel cyfle i ymarfer dweud enw'r pentref enwog! Bydd y llwybr yn mynd o dan y ddwy bont – Pont Britannia a godwyd gan Stephenson yn 1850, a Phont y Borth, y bont grog enwog a godwyd gan Thomas Telford yn 1826.

## Suggested walks

**Beaumaris to Penmon Point (7.25km / 4.5 miles)**
Enjoy a wander around Beaumaris with its rich Georgian architecture before heading along the coast where you'll enjoy superb views of the Carneddau mountains across the Menai Strait. At Penmon Point you'll see Puffin Island, a protected habitat because of its large cormorant population (but no puffins!)

**Moelfre to Dulas (Pilot Boat Inn) (7.25km / 4.5 miles)**
This walk, with fantastic coastal views throughout, runs from the picture-postcard village of Moelfre to the popular beach of Traeth Lligwy and little visited beach of Traeth yr Ora, before heading inland along the Dulas estuary to the Pilot Boat pub. The Path passes by the memorial to those lost in the 1859 Royal Charter and 1959 Hindlea shipwreck disasters.

**Amlwch Port to Cemaes (13.25km / 8.25 miles)**
From the historic and picturesque Amlwch Port, the path leads to low rocky cliffs and the spectacular bays of Porth Llechog (Bull Bay) and Porthwen before passing the remote Llanbadrig church and entering the coastal village of Cemaes.

**Holyhead to South Stack (4.25km / 2.75 miles)**
A moderately challenging walk starting in the Breakwater Country Park in Holyhead. The route heads over the mountain and Coast Path to the iconic South Stack. It is possible to return via well defined paths around the other side of the mountain and back to the park.

**Aberffraw village, estuary, beach and dunes (circular 3.75km / 2.5 miles)**
A short walk which takes in the village of Aberffraw, the pretty Ffraw estuary and the beach, before returning via the dunes.

**Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwllllantysilio-gogogoch to Menai Bridge (5km / 3 miles)**
Use this lovely walk with great views across to the mainland as an opportunity to learn how to say the name of this famous village! The walk passes under both bridges to the island - Stephenson's 1850 Brittania Bridge and Telford's 1826 Menai Suspension Bridge.

Beth am gofnodi eich taith ar hyd Llwybr Arfordir Cymru?

Why not record your Wales Coast Path journey!

## Pasbort | Passport
## Ynys Môn | Anglesey

| Llwybrau<br>Paths | Milltir<br>Miles | km | Dyddiad<br>Date |
|---|---|---|---|
| Porthaethwy / Menai Bridge > Biwmares / Beaumaris | 5 | 8 | ○ |
| Biwmares / Beaumaris > Llanddona | 10 | 16 | ○ |
| Llanddona > Benllech | 5 | 8 | ○ |
| Benllech > Moelfre | 3 | 5 | ○ |
| Moelfre > City Dulas | 8 | 13 | ○ |
| City Dulas > Porth Amlwch port | 8 | 13 | ○ |
| Porth Amlwch port > Bae Cemaes Bay | 8 | 13 | ○ |
| Bae Cemaes Bay > Porth Swtan / Church Bay | 11 | 18 | ○ |
| Porth Swtan / Church Bay > Llanfachraeth | 7 | 11 | ○ |
| Llanfachraeth > Y Fali / Valley | 3 | 5 | ○ |
| Y Fali / Valley > Caergybi / Holyhead | 5 | 8 | ○ |
| Caergybi / Holyhead > Ynys Lawd / South Stack | 5 | 8 | ○ |
| Ynys Lawd / South Stack > Trearddur Bay | 7 | 11 | ○ |
| Trearddur Bay > Rhoscolyn | 4 | 6 | ○ |
| Rhoscolyn > Pont Rhydbont / Four Mile Bridge | 5 | 8 | ○ |
| Pont Rhydbont / Four Mile Bridge > Rhosneigr | 7 | 11 | ○ |
| Rhosneigr > Aberffraw | 7 | 11 | ○ |
| Aberffraw > Malltraeth | 5 | 8 | ○ |
| Malltraeth > Niwbwrch / Newborough | 8 | 13 | ○ |
| Niwbwrch / Newborough > Brynsiencyn | 6 | 10 | ○ |
| Brynsiencyn > Llanfairpwllgwyngyll | 5 | 8 | ○ |
| Llanfairpwllgwyngyll > Porthaethwy / Menai Bridge | 3 | 5 | ○ |

Ewch i'n tudalen Pasbortau **www.walescoastpath.gov.uk/passport** i gael manylion am dystysgrifau cwblhau a phethau i gofio eich taith.

Visit our Passport page **www.llwybrarfordircymru.gov.uk/pasbort** for details about completion certificates and mementos to commemorate your journey.

## Dilynwch yr arwyddion!
## Follow the signs!




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2023. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100019741.
© Crown Copyright and database right 2023. Ordnance Survey licence number 100019741.




Ynys y Fydlyn